Cofnodion Cyfarfod 14eg o Fai 2012 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli.

**YN BRESENNOL**

Ken Brown
Lena Ashley
Sarah Riley
Pat Jones
George Smith
Bethan Jones
Hywel Vaughan Jones
Iestyn Harris
Louise Hughes
Nerys John
Hefyd yn bresennol Wynne Barton
Swyddog Ariannol

## 1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Mai'r Cyngor.

**Ymddiheuriadau** Siân Gwenllïan, Daniel Williams

## 2.0 DATGAN DIDDORDEB

2.1 Dim

## 3.0 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd Cofnodion 9fed o Ebrill 2013.

**Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir ac arwyddwyd y cofnodion.**

## 4.0 MATERION YN CODI

4.1 **Ger y Nant** - cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad byr ynglŷn â'r mesuriadau sydd i'w cyflwyno ar y ffordd ger yr Ystâd gan gynnwys ail leoli arwyddion 30 m.y.a. a chyflwyno stribedi coch.

4.2 **Menter Fachwen** - Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad bod Menter Fachwen wedi ymweld â'r safle Moriah ac am gyflwyno cynllun i edrych ar ôl y safle. Hefyd bydd Menter Fachwen yn ymdrin â'r blodau ger y cloc a gobeithir cael y wasg yno i dynnu lluniau o'u gwaith.

4.3 **Materion Traffig -** bydd cyfyngiad aros ar Stryd Bangor a chyfyngiad cyflymdra 30/40 m.y.a. ochr Bangor y Pentref yn cael eu hysbysebu'n ffurfiol erbyn diwedd y mis.

4.4 **Llwybr Heulyn** - mae'r llwybr cyhoeddus bellach wedi ei agor ar ôl y gwaith atgyweirio.

## 5.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

5.1 Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor nad oeddynt wedi derbyn yr adroddiad annibynnol ynglŷn â threfniadau Diogelwch Tân oddi wrth y Pensaer a byddai yn gwneud ymholiadau ar y mater.

5.2 Roedd wedi derbyn adroddiad oddi wrth yr Ofalwraig bod dŵr yn dod i mewn i brif ran o'r neuadd ar yr ochr chwith, tybier mai o ganlyniad bod llechi yn rhydd wedi'r tywydd garw yn ddiweddar. Bydd angen gwneud cais yswiriant.

**Gofynnwyd i'r Clerc gael 3 pris oddi wrth Gontractwyr toeau.**

5.4 Mae angen symud i gadarnhau contract waith yr Ofalwraig ac er mwyn i ddigwydd bydd rhaid i is-bwyllgor cyflogaeth gyfarfod.

5.5 Awgrymwyd bod yn amser bellach i gyfethol aelodau o'r cyhoedd i fod ar Bwyllgor y Neuadd, bydd yr eitem yma yn cael ei roi ar agenda cyfarfod y pwyllgor nesaf.

5.6 Cyflwynwyd mantolen y Neuadd gan y Swyddog Ariannol.

## 6.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.

6.1 Cadarnhawyd gwariant Mis Ebrill.

6.2 Cadarnhawyd bod cais am gymorth ariannol oddi wrth y Regata am £150 wedi ei wireddu; bellach roedd cais am gymorth ariannol oddi wrth yr Ysgol Feithrin wedi ei dderbyn; penderfynwyd anfon ffurflen gais atynt ynghyd ac eglurhad bod arian wedi ei glustnodi iddynt.

6.3 Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i archebu Blinds ar gyfer y neuadd fe drafodwyd lliwiau oddi wrth samplau oedd wedi cyflwyno. Penderfynwyd ar liw coch tywyll.

6.4 Roedd llythyr wedi ei dderbyn oddi wrth Marc Balaam Swyddog Prosiect y Lon Las yn egluro nad oedd digon o gyllid ar gyfer cwblhau'r prosiect yn ei gyfanrwydd a bod angen chwilio am arian o ffynhonnell eraill yn cynnwys cais am gyfraniad gan y Cyngor Cymuned ar gyfer cwblhau rhannau o'r prosiect. Gofynnwyd am gyfraniad o £10K. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd cynnig mewn egwyddor £5K i'w adolygu yn bellach yn y flwyddyn ariannol.

**Y Clerc i lythyr y swyddog a'r penderfyniad hyn.**

6.6 Fe longyfarchwyd y Swyddog Ariannol gan y Cadeirydd am ei waith.

## 7.0 GOHEBIAETH

7.1 Ymgynghoriad canllawiau cymdeithasol ac amgylcheddol draft i Ofwat - dywedodd y Clerc bod yr ymgynghoriad i'w gael ar lein ac os oedd yr aelodau

eisiau trafod y mater yn y cyfarfod nesaf yna iddynt ei hysbysu o hynny cyn bod yr agenda yn cael ei gyflwyno.

7.2 Cynllun Datblygu Gwynedd a Môn - fe roddwyd y dogfennau i ddau aelod i'w ddarllen ac yna i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

## 8.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC

8.1 Dim.

## 9.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

9.1 C13/0399/20/LL – Cais ar gyfer dymchwel estyniad cefn presennol ynghyd a chodi estyniad unllawr to pits ar gefn yr eiddo – 59 Y Wern, Y Felinheli LL56 4TZ – **Dim gwrthwynebiad.**

9.2 C13/0462/20/C – cais i dorri dwy goeden wedi eu diogelu gan Orchymun Diogelu Coes – Dinas, Felinheli, Gwynedd, LL56 4RX.- **Dim gwrthwynebiad.**

## 10.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT

10.1Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn canmoliaeth i gyflwyr y fynwent.

## 11.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH

11.1 Mae Cyfarfod gyda Menter Fachwen ynglŷn â safle Moria wedi ei gynnal ac maent ystyried cynllun ar gyfer cynnal y safle.

## 12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU

12.1 Cyflwynodd George Smith adroddiad ar y cyfarfod a Chyngor Cymuned Llanddeiniolen i ymdrin â Llwybrau Cyhoeddus oedd yn cynnwys Y Felinheli a Bethel. Y Llwybrau yn gyffredin oedd llwybr Bethel i Carreg Goch a Bethel i Bonc. Nid oedd y llwybrau o fewn yr un categori gan Cyngor Cymuned Llanddeiniolen. Er mwyn newid category y llwybrau gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen i fod o fewn yr un category a'r Cyngor hwn byddai rhaid iddynt gael penderfyniad Cyngor. Felly bydd rhaid disgwyl hyd nes byddant wedi cyfarfod ac ein hysbysu o'r penderfyniad.

12.2 Bydd un llwybr yn cael ei dorri'n ddau os bydd Ffordd osgoi Bontnewydd a Chaernarfon yn dilyn y llwybr porffor.

12.3 Mae llwybr Heulyn wedi ei ailagor yn anffodus nid yw wyneb y llwybr cystal ag o'r blaen.

12.4 Dywedodd y Cynghorydd George Smith ei fod yn fodlon i wardeinio y Safleoedd Bysiau.

## 13.0 CYNGHORODD SIR

13.1 Nid oedd y Cynghorydd yn bresennol ond darllenwyd yr adroddiad gan y Cadeirydd. Nid oedd cynnwys yr adroddiad yn wahanol i'r materion a drafodwyd o dan yr eitemau arferol y cyfarfod.

## 14.0 UNRHYW FATER ARALL

14.1 Cafwyd adroddiad bod llygrith sŵn yn dod o Ger y Nant gan fod y gwaith yn cychwyn yn fuan yn fore ac yn parhau yn hwyr yn y dydd.

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9:30 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....

**CYFARFOD YNGLŶN Â CHYNLLUN RHEOLI TRAETHLIN 2 (CRhT2)**
**21ain o Fai 2013**

## 1.0 YN BRESENNOL

Ken Brown — Pat Jones
Nerys John — Sian Gwenllïan

Huw Williams a Gareth Wright Cyngor Gwynedd

## 2.0 PWRPAS Y CYFARFOD

2.1 Codi ymwybyddiaeth y cymunedau er mwyn iddynt gychwyn meddwl am y polisïau CRhT a sut y byddent yn dylanwadu ar benderfyniad ehangach. Gan hynny mae Cyngor Gwynedd angen cael gwell dealltwriaeth o sut y bydd cymunedau yn wynebu sialensiau oherwydd newid hinsawdd.

2.2 Mae Cabinet Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu'r CRhT 2 ar y 22ain o Ionawr 2012 sydd yn gosod yr arolwg strategol lefel uchel ar gyfer rheoli risg llifogydd ar erydiad arfordirol y morlin ar gyfer y 100 mlynedd nesaf. Mae'r CRhT yn galluogi i Gyngor Gwynedd gwneud ceisiadau ar gyfer Grantiau oddi wrth Llywodraeth Cymru.

## 3.0 CASGLIADAU'R CRhT 2 - FELINHELI

3.1 Mae'r arfordir yn amgylchedd deinameg sydd yn wastad yn newid yn naturiol dros amser. Mae'r CRht 2 yn asesu maint llifogydd ac erydiad posib o'r môr ac mae'r dull reoli a ddewisir yn amodol ar gyllid sydd ar gael.

3.2 Roedd tri pholisi o ddiddordeb i'R Felinheli, Porth Waterloo i Lan y Môr - Y Felinheli, Y Felinheli a Lodge Glan y Môr i'r Bont. Ni fyddai ymyriad gweithredol ar gyfer y polisi cyntaf a'r trydydd a bydd yr ail bolisi yn dal y llinell .

## 4.0 RÔL Y CYNGOR CYMUNED

4.1 Hysbysebu Cyngor Gwynedd o beth mae'r cynllun yn ei olygu i'r Cyngor.

4.2 Hysbysu'r gymuned sut bydd y polisi CRhT yn effeithio ar unigolion a'r gymuned.

4.3 I gyflwyno barn ar sut mae angen i'r Gymuned gynllunio ar gyfer ŷ dyfodol.

4.4 Anghenion y Gymuned i reoli'r dyfodol yn unol â'r polisi.

4.5 I gael barn ar beth mae ystwythder yn golygu i'r Cyngor.

4.6 I gadw cysylltiad â Chyngor Gwynedd er mwyn cael gwybodaeth a rhoi gwybodaeth ar ddatblygiadau'r CRhT2.

5.0 GWEITHRED

5.1 Ysgrifennu at Uned Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol, Ymgynghoriaeth Gyngor Gwynedd gyda manylion llifogydd a risgiau oherywdd y tri "Slipway" a'r dystiolaeth o'r llifogydd ar Lon Glan y Môr Yn y 90au.

5.2 Ysgrifennu at y Clwb Hwylio.

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 8.00 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....